Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MAWRTH 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 19eg Mawrth, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd RHOSTRYFAN
PRESENNOL	Tom Ellis (Cadeirydd), Jason Hunt, Nerys Evans, Elwyn Jones, Gwilym L.Williams, Huw Williams, Gwilym V.Thomas, Meurig Williams, Elin Evans, Jane Eryl Jones, Emrys Jones

1. **Ymddiheuriadau**
   Neal Williams

2. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3. **Datgan Buddiant**
   EE – eitem nawdd Eisteddfod yr Urdd

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnwyd cofnodion fis Chwefror fel rhai cywir oni bai am un cywiriad i eitem 9(f) – angen nodi mai llwybr sy'n arwain o Dreflan i Gors Goch y dylai ddarllen, nid Gwynfryn i Gors Goch.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Angen gwella llwybrau oddi fewn i Cefnfaes Clerc wedi holi am bris gan Wyn i ail-wynebu'r llwybrau a chael gosod 'kerbs'. Wyn wedi hysbysu'r clerc ei bod yn ormod o waith i unigolyn. Penderfynwyd cynnal cyfarfod safle efo'r is-bwyllgor mynwentydd i drafod yr union anghenion ac yna gofyn am brisiau. Gan mai dau aelod yn unig sydd ar yr is-bwyllgor bellach, enwebwyd JH fel aelod newydd o'r is-bwyllgor mynwentydd. Gwnaethpwyd sylw gan NE fod angen rhoi manylion y beddi sydd wrth y sied i lawr yn y llyfr, gan ei bod yn tybio nad oes cofnod manwl o'r beddi rheini. Heb dderbyn ymateb gan Carter Jonas ynglyn a phryniant tir pellach.
   b. Ymateb gan Steffan Jones ynglyn a phroblem sbwriel. Nodir fod problemau drwy'r sir gyfan, a fod y cyngor yn edrych ar y posibilrwydd o osod arwyddion newydd sydd wedi'i treialu yn Lloegr. Addawodd gadw golwg ar y sefyllfa.
   c. Parcio ger Bro Wyled/Bro Cadfan – adroddodd GO fod cynlluniau ar y gweill i greu mannau parcio newydd yn Bro Cadfan, drwy ledu'r ffordd a chreu safloedd parcio a hefyd bod bwriad i greu safloedd parcio ger rhif 7 ac 8 Bro Wyled. Nododd fod y gwaith ar restr faith, ond gobeithio y bydd yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol newydd.
   d. Clerc wedi rhoi gwybod i'r Adran Lwybrau fod angen camfa/giat mochyn ar y tir sydd dros y ffordd a Geufron.

e. Lein Bryngwyn – cyfarfod rhwng Ffestiniog a Gwynedd wedi'i drefnu am 2 o'r gloch brynhawn Mawrth, 19eg yn swyddfeydd y Cyngor. Nododd GO ei siomiant na fu cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod. Anfonodd ElJ ei ymddiheuriad. Adroddodd GO fod swyddogion Gwynedd a Ffestiniog wedi trafod y mater a does dim datblygiad pellach oherwydd y broblem perchnogaeth tir. Nid yw Gwynedd yn fodlon cymryd cyfrifoldeb lês ar dir heb gadarnhâd perchnogaeth, ac nid yw Ffestiniog yn fodlon derbyn 'llwybr caniatâd' i Llanwnda, maen nhw'n mynnu cael lês ffurfiol rhyngddyn nhw â Chyngor Gwynedd.

f. Cyfadran Datblygu – Ad-drefnu ysgolion – ffurflen ymateb. Cyfarfu NE a'r clerc i lenwi'r holiadur ar ran Cyngor Llanwnda. Fodd bynnag, adroddodd GO fod unrhyw sylwadau ar yr ymgynghoriad presennol yn gynamserol, ac awgrymodd y dylid disgwyl tan bydd canllawiau'r Cynulliad wedi cyrraedd. Teimlai'r aelodau y dylem gysylltu â'r Adran Addysg i weld os ydynt yn derbyn sylwadau ar yr ymgynghoriad presennol, o ystyried y sefyllfa ddiweddara. Hefyd derbyniwyd cais i'r cyngor ymuno a Chyngrair Ysgolion a Chefnogwyr. Penderfynwyd peidio ymuno â'r Gyngrair fel sefydliad, ond bod croeso i bawb ymuno'n unigol.

g. Ymateb gan Richard W.Roberts ynglyn a'r gwaith diffygiol ar Dai Gwelfor – angen union fanylion y cwynion. Nodwyd fod y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar y tai yn ddiffygiol, a tybier mai gweithwyr y Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am y gwaith hwn yn hytrach na'r contractiwr sydd wedi'i gytundebu i wneud y cynllun gwella. Angen pwyso ar yr Adran i sicrhau fod y gwaith diffygiol yn cael sylw gan yr ymgymerwyr presennol.

h. Adroddodd y clerc ei bod wedi cael cyfarfod gyda Meirion Williams, Adran Briffyrdd i ddangos diffygion sylweddol ar y ffyrdd yn yr ardal, yn arbennig felly diffyg gwyneb a phroblemau dwr ar wyneb y ffyrdd. Trafodwyd hefyd y diffyg arwyddion 30myw rhwng Rhostryfan, Penyceunant, Penygroeslon, Rhos Isaf. Addawodd y byddai'n adrodd yn ôl yn fuan. Soniwyd hefyd am stepiau Muriau, ac fe gafwyd addewid y byddai'n asesu'r sefyllfa ymhellach. Ynglyn a wal sy'n disgyn i'r ffosydd ar lôn Cae Garw, nodir fod y Cyngor bellach mewn trafodaethau gyda pherchennog Bryn Glas i geisio atgyweirio'r wal.

i. Llythyr gan Robert Williams, Rhosgadfan yn tynnu ein sylw at hen waith dwr ger Moel Tryfan – twnel a allai fod yn beryglus. Nododd yr aelodau fod y safle hwn y tu allan i ffiniau Llanwnda. Clerc i basio'r wybodaeth ymlaen at Gyngor Llandwrog.

j. Clerc wedi gwneud cais i gael cyfarfod cyhoeddus gyda'r Heddlu. Gobeithir cynnal y cyfarfod yn Clwb Pêldroed Rhosgadfan ar y 15fed o Ebrill. Clerc i anfon manylion maes o law.

k. Rhybuddion etholiad a ffurflenni cofrestru. Nodwyd fod tymor pawb yn dod i ben fel cynghorydd ym mis Mai eleni, felly gofynnwyd i bawb lenwi ffurflen enwebiad.

l. Cofnodion Grwp Cyswllt Lleol Cilgwyn. Adroddodd GVT ei fod wedi mynychu'r cyfarfod, a'i fod wedi gofyn y cwestiwn beth fyddai'n digwydd i safle Cilgwyn unwaith y byddai'n cau ond ni chafwyd ateb derbyniol. Yr unig wybodaeth a dderbyniodd oedd mai Cyngor Gwynedd fyddai perchennog y safle.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	19,079.00
Cyfri Siec:	625.80
Derbyniwyd ad-daliad TAW	1,058.93
Derbyniwyd ad-daliad llwybrau gan Gyngor Gwynedd	1,741.00
CYFANSWM	**22,504.73**

NAWDD

Penderfynwyd cynnig nawdd canlynol:

Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri	200.00
Cyngor ar Bopeth	100.00
Cymdeithas Treialon Cwn Defaid Llanllyfni	50.00
Cwmni'r Frân Wen	100.00
Cyfeillion Cerdd Ieuenctid Gwynedd	100.00
Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru	100.00
Lleu	150.00
Theatr Bara Caws	150.00

Adroddodd GO fod cais i ddod i law gan Ysgol Rhosgadfan – bydd yn cael ei drafod fis nesa.

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Mawrth & ad-dalid Inkmaster	425.05
Cyllid y Wlad	97.35
Canolfan Bro Llanwnda – llogi stafell	6.00
Cyfanswm taliadau	**£1,478.40**
YN WEDDILL	**£21,026.33**

Eto i'w talu:

Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio)	8918.89
Addewid i Ysgol Rhostryfan	1,000.00

TENDR: mae cyfnod tendr torri llwybrau/Cefnfaes yn dod i ben eleni. Penderfynwyd hysbysebu yn y wasg leol yn nodi manylion y tendr.

Materion Cynllunio
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0161/24/LL Hafoty Penbryn, Rhosgadfan – dymchwel ystafell wydr bresennol, codi estyniad deulawr, codi modurdy dwbl a storfa ar wahan a chodi sied amaethyddol
CO8A/0118/24/LL – Tan yr Ardd, Rhostryfan – trosi modurdy a gweithdy presennol i uned wyliau ynghyd a chreu gardd a safloedd parcio cysylltiedig.

Teimlai'r aelodau nad yw'r cynllun canlynol yn gweddu â'r tirlun:
CO8A/0119/24/LL – Maen Llwyd, Rhosgadfan – codi uchder to'r ty presennol, estyniad deulawr ac estyniad llawr cyntaf ar yr ochr

Eisoes wedi'u caniatau:
Ty Newydd, Rhos Isaf – sied amaethyddol
Gwrthodwyd:
Codi 2 dy, hen safle Neuadd Rhosgadfan

Gohebiaeth:

a) Fforwm Gwledig – datblygu siop y pentref – pasio'r wybodaeth ymlaen i berchennog Siop Gwyled.
b) Cymdeithas y Cerddwyr – cyfraith hawliau tramwy – diwrnod hyfforddiant – dydd Sadwrn, Mawrth 29ain yn Llandudno
c) Cyfadran yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd – datganiad technegol rhanbarthol ar agregau – ymgynghoriad – cyfle i ymateb i adroddiad newydd ar chwareli
d) Clercod Gwynedd – cyfarfod Mawrth 19eg
e) Scope – angen pobl i gasglu dillad o dy i dy
f) Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a) MW a HW Llwybrau Rhosgadfan
b) NE – nododd fod angen adnewyddu'r arwydd sy'n dynodi 'anaddas i gerbydau mawr' ar Lôn Ty'n Clwt, Rhos Isaf.
c) EmJ – gofyn am lamp yn Ffrwd Cae Du.
d) GLW – nodi fod gwteri ymhob ardal yn llawn, a bod angen eu gwagio yn rheolaidd.
e) EE – car wedi mynd ar dân ger Tyddyn Seipar/Ty'n Rhos – angen clirio'r ffordd o wydr ac ati. Nododd hefyd fod dwr gwyneb ger Felinwnda yn broblem a bellach fod tyllau mawr yn y ffordd.
f) TE – arwyddion ar y ffordd osgoi i ddynodi llwybrau troed yn croesi'r ffordd. Clerc i geisio gael atebion gan y swyddfa ym Mae Colwyn. Hefyd, angen gwybodaeth ynglyn a'r arwyddion ar y gylchfan ger y Goat.